

CYSTADLEUAETH FATHEMATEGOL

Amser a ganiateir: Awr

Enw'r Ysgol _____ Dosbarth _____

Enw'r disgybl _____

1 Cwblhewch y sgwâr hwn. Cyfanswm pob rhes, colofn a chroeslin yw 54.

32		20
	18	

2 Wrth amcangyfrif y nifer o fatsys mewn bocsy cynigiodd tri phlentyn y rhifau 28, 40 a 46. Nid oedd neb yn hollol gywir a'r gwahaniaeth rhwng eu hatebion a'r nifer cywir oedd 1, 7 ac 11 - ond nid yn y drefn hon. Faint o fatsys sydd yn y bocsy?

Ateb _____ matsen

3 Trefnwch y digidau 2, 4, 5, 8, 9 i ffurfio'r eilrif 5 digid lleiaf posibl.

Ateb _____


4 Wrth ddefnyddio côd arbennig lle mae rhif yn cynrychioli llythyren mae'r geiriau:

DRWS BRWS BRAW DERI


yn ymddangos fel 5263, 1234, 1827 a 5234 - ond nid yn y drefn hon. Pa lythyren yw pob rhif?

Ateb 1 = 2 = 3 = 4 = 5 = 6 = 7 = 8 =

5 Rhowch y digidau 1 i 9 yn y sgwariau. Dangosir beth yw cyfanswm pob rhes a cholofn.



6 Sawl ongl sgwâr sydd yn y llun hwn?



Ateb _____ ongl sgwâr

7 Lluniwch chwe llinell syth sy'n croesi yn union saith pwynt (rhaid cynnwys unrhyw bwyntiau croesi nad ydynt ar y papur!).

8 Swm digidau'r rhif 35 yw 8. Wrth rannu 35 ag 8 cawn weddill o 3. Beth yw'r gweddill mwyaf posibl wrth rannu rhif dau ddigid gyda swm ei ddigidau?

Ateb _____

9 Mae gen i nifer o blant. Mae rhai ohonynt yn mynd i ysgol gynradd a rhai i ysgol uwchradd. Os lluosaf eu hoedran caf yr ateb 60060. Faint o blant sydd gen i?

Ateb _____ plentyn

10 Rhowch y rhifau 1 i 11 yn y sgwariau bach ar y siâp awyren hwn.

Rhaid i gyfanswm y rhifau fod yn 23 ar: y prif ran (5 sgwâr), yr adenydd (5 sgwâr) a'r cynffon (3 sgwâr).

